OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 924

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011

## RHAN 2

Cosbau ariannol penodedig

### Hysbysiad o fwriad

**5.**—(1) Pan fo'r awdurdod gorfodi'n bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn y bwriedir ei wneud ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnig cyfle i'r person gyflawni ei rwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig drwy dalu 50% o swm y gosb o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'n cael yr hysbysiad o fwriad.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth hefyd am—

(a) seiliau'r bwriad i osod y gosb ariannol benodedig;

(b) swm y gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod;

(c) effaith talu'r swm y cyfeirir ato yn erthygl 6;

(ch) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau;

(d) yr amgylchiadau pan na chaiff yr awdurdod gorfodi osod y gosb ariannol benodedig;

(dd) y cyfnod, y cyfeirir ato yn erthygl 6, y ceir cyflawni'r rhwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig ynddo;

(e) y cyfnod, y cyfeirir ato yn erthygl 7(1), y ceir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ynddo.

(4) Ond ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad i berson mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anwaith pan fo—

(a) cosb ariannol newidiol wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw;

(b) hysbysiad stop([1]) wedi ei gyflwyno i'r person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw.

(**1**) *Gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer y diffiniad o'r term hwn.